




Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Ymddeol ar Sail Afiechyd

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Sut mae afiechyd yn cael ei asesu?.....	3
Beth yw'r broses?	3
Beth yw'r gwahanol haenau?	4
Haen 1	4
Haen 2	4
Haen 3	4
A fydd eich achos yn cael ei adolygu?.....	4
Beth os ydych eisoed wedi rhoi'r gorau i dalu i mewn i CPLIL?	5
Hawl i apelio.....	5
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	5
Ymwadiad.....	6

Cyflwyniad

Efallai y gallwch dderbyn eich buddion pensiwn ar unwaith ar sail afiechyd os:

- oes gennych o leiaf dwy flynedd o aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), neu
- rydych wedi trosglwyddo pensiynau blaenorol i'r CPLIL sy'n rhoi dwy flynedd o aelodaeth i chi, ac
- mae eich cyflogwr yn dod â'ch cyflogaeth i ben oherwydd salwch

Os byddwch yn ymddeol ar sail afiechyd cyn eich oedran ymddeol arferol, ni fydd eich pensiwn yn cael ei leihau er eich bod yn ei gymryd yn gynnar.

Gellir talu buddion pensiwn afiechyd ar unrhyw oedran a gellir eu cynyddu i gymryd eich afiechyd i ystyriaeth. Mae'r cynnydd y gellir ei ddyfarnu'n cael ei rannu'n haenau, yn dibynnu ar ba mor debygol ydych chi o allu gwneud gwaith cyflogedig.

Sut mae afiechyd yn cael ei asesu?

Rhaid i'ch cyflogwr gael barn gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig Annibynnol (YMCA) sydd wedi cymhwyso mewn meddygaeth iechyd galwedigaethol. Rhaid i'ch cyflogwr fod yn fodlon wedyn:

- eich bod yn barhaol analluog i gyflawni eich swydd; ac
- nad ydych yn gallu ymgymryd ag unrhyw waith cyflogedig ar unwaith (cyflogaeth â tâl am ddim llai na 30 awr yr wythnos am ddim llai na 12 mis)

Mae bod yn barhaol analluog yn golygu hyd at eich oedran ymddeol arferol. Eich oedran ymddeol arferol yw naill ai oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu 65 oed, pa un bynnag yw'r hynaf.

Beth yw'r broses?

Bydd eich cyflogwr yn cyfeirio eich achos at yr YMCA, a fydd yn rhoi barn yn seiliedig ar y dystiolaeth feddygol a gyflwynwyd gan eich cyflogwr, meddyg teulu ac unrhyw feddyg ymgynghorol neu arbenigwr y gallech fod wedi'i weld am eich afiechyd.

Efallai y bydd yn rhaid i chi gael archwiliad meddygol gan yr YMCA i asesu eich cyflwr.

Ar ôl i chi gael eich asesu, anfonir tystysgrif at eich cyflogwr, a fydd yn nodi barn yr YMCA ynghylch a ydych yn barhaol analluog i wneud eich swydd, y tebygolrwydd o gymryd unrhyw waith cyflogedig, a'r haen debygol o fuddion y gellid eu dyfarnu i chi (os o gwbl).

Beth yw'r gwahanol haenau?

Haen 1

Os yw'r YMCA o'r farn ei bod yn annhebygol y byddwch yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig cyn eich oedran ymddeol arferol, y cynnydd i'ch pensiwn fydd swm y pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (ECGA) y byddech wedi'u cronni o'r diwrnod canlynol ar ôl eich dyddiad ymddeoliad oherwydd afiechyd i'ch oedran ymddeol arferol.

Mae'r cynnydd hwn yn seiliedig ar eich tâl pensiynadwy tybiedig, sef cyfartaledd y tâl pensiynadwy y byddech wedi'i ennill yn y tri mis cyfan (neu 12 wythnos os telir yn wythnosol) cyn eich dyddiad gadael.

Haen 2

Os yw'r YMCA o'r farn ei bod yn annhebygol y byddwch yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn tair blynedd i adael eich swydd, ond ei bod yn debygol y byddwch yn gallu ymgymryd â chyflogaeth â thâl cyn eich oedran ymddeol arferol, y cynnydd a ddyfernir fydd 25% o'r hyn a roddwyd o dan Haen 1. Felly, 25% o swm y pensiwn ECGA y byddech wedi'i gronni o'r diwrnod yn dilyn eich ymddeoliad oherwydd afiechyd i'ch oedran ymddeol arferol.

Telir buddion pensiwn sy'n daladwy o dan Haenau 1 a 2 am oes.

Haen 3

Os yw'r YMCA o'r farn ei bod yn debygol y byddwch yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn tair blynedd i'ch ymddeoliad Haen 3 neu cyn eich oedran ymddeol arferol (os yw hynny'n gynharach), bydd y buddion yr ydych wedi'u cronni hyd at eich dyddiad ymddeoliad oherwydd afiechyd yn dod yn daladwy heb unrhyw gynnydd.

Nid yw buddion Haen 3 yn daladwy am oes. Bydd pensiwn Haen 3 yn dod i ben ar unwaith, unwaith y byddwch yn dechrau gwaith cyflogedig eto neu ar ôl uchafswm o dair blynedd.

A fydd eich achos yn cael ei adolygu?

Nid yw Haenau 1 a 2 yn cael eu hadolygu, ond mae'n rhaid i'ch cyflogwr eich cyfeirio am adolygiad os dyfernir pensiwn Haen 3 i chi. Bydd yr adolygiad yn cael ei wneud gan yr YMCA ar ôl i'ch buddion fod yn cael eu talu am 18 mis, fel y gellir asesu eich cyflwr afiechyd i weld a yw wedi gwella neu waethygu. Os yw'ch afiechyd wedi gwaethygu, efallai y byddwch yn gymwys i'ch buddion gael eu cynyddu i Haen 2. Os yw'ch cyflwr wedi gwella, bydd taliad eich pensiwn yn dod i ben o ddyddiad yr asesiad.

Eich cyfrifoldeb chi yw dweud wrth eich cyn-gyflogwr os byddwch yn gwneud unrhyw fath o waith tra bod eich pensiwn Haen 3 yn cael ei dalu i chi. Bydd eich cyn-gyflogwr wedyn yn

penderfynu a yw'r gwaith hwn yn bodloni rheolau cyflogaeth â thâl. Bydd unrhyw ordaliad o bensiwn yn cael ei adennill gan Gronfa Bensiynau Clwyd.

Sylwch

Os ydych wedi derbyn pensiwn Haen 1 neu 2 gan y CPLIL yn flaenorol neu wedi cael pensiwn afiechyd CPLIL cyn 1 Ebrill 2008, gall unrhyw gynnydd gael ei gapio neu efallai na fydd hyd yn oed yn berthnasol os ydych am ymddeol eto oherwydd afiechyd.

Hefyd, os ydych wedi bod yn derbyn pensiwn Haen 3 sydd wedi dod i ben ers hynny wrth i'ch cyflwr wella neu fod y cyfnod o dair blynedd wedi dod i ben, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn pensiwn Haen 3 arall fel aelod o'r CPLIL, hyd yn oed os ydych yn cael eich cyflogi gan gyflogwr gwahanol neu gyda chronfa bensiynau arall.

Os ydych yn aelod ad-daliad wedi'i rewi nad oes gennych ddigon o aelodaeth o'r cynllun i fod yn gymwys ar gyfer buddion gohiriedig, nid ydych yn gymwys i dderbyn taliad o unrhyw fuddion oherwydd afiechyd.

Beth os ydych eisoes wedi rhoi'r gorau i dalu i mewn i CPLIL?

Os ydych wedi rhoi'r gorau i dalu i mewn i'r CPLIL ac mae gennych fuddion gohiriedig (nid ydych yn derbyn taliadau pensiwn eto), mae gennych hawl o hyd i ofyn am daliad o'r buddion hyn ar unrhyw oedran ar sail afiechyd. Dylech gysylltu â'ch cyn-gyflogwr i wneud eich cais. Bydd eich achos wedyn yn cael ei asesu fel y disgrifiwyd yn gynharach yn y daflen ffeithiau hon, fodd bynnag, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn unrhyw gynnydd yn eich buddion, gan nad oes unrhyw haenau o fuddion afiechyd ar gyfer aelodau gohiriedig.

Hawl i apelio

Os ydych yn anfodlon ar y dyfarniad buddion afiechyd, mae gennych yr hawl i apelio o dan y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol (IDRP). Dylid gwneud apeliadau yn ysgrifenedig o fewn chwe mis i ddyddiad penderfyniad eich cyflogwr a chael eu hanfon at y person a nodir gan eich cronfa bensiynau. Ceir manylion am IDRP yn adran **ffurflenni ac adnoddau** ein gwefan.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@sirymfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclywd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.